

## **Datganiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar Gaethwasiaeth Fodern – 2023 / 2024**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y bwrdd iechyd) yn cymryd ein cyfrifoldebau i atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyn gyflenwi o ddifrif. Er mwyn bodloni gofynion Adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ("y Ddeddf"), mae ein datganiad caethwasiaeth fodern blynyddol yn nodi ymagwedd y sefydliad tuag at gaethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur gorfodol a thorri hawliau llafur mewn cyflogaeth a'n cadwyni cyflenwi.

Mae'r datganiad yn ymwneud â'r bwrdd iechyd, gan gynnwys ein tri sefydliad a gynhelir, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, yr Academi Ddelweddu Genedlaethol a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

### **Amdanom ni a'n cadwyn gyflenwi**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn un o saith bwrdd iechyd sy'n gweithredu yng Nghymru ac sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG. Rydym yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i'r 450,000 o bobl sy'n byw yn nhair bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd brynu llawer iawn o nwyddau a gwasanaethau i'w alluogi i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rheoli'r broses o brynu nwyddau a gwasanaethau ar ran y Bwrdd Iechyd.

Daeth y bwrdd iechyd yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig ar 9 Chwefror 2023. Rydym bellach wedi ymrwymo nid yn unig i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i gyflogeion a gweithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gennym (sydd eisoes yn cael y cyflog byw gwirioneddol), ond hefyd i sicrhau bod contractwyr a chyflenwyr trydydd parti sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i'r bwrdd iechyd yn ei dalu i'w gweithlu nhw hefyd. Felly yn 2022 / 2023 mae'r bwrdd iechyd wedi cryfhau ein prosesau caffael er mwyn sicrhau, lle nad yw ein contractwyr a'n cyflenwyr trydydd parti yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithlu ar hyn o bryd, y byddan nhw'n gwneud hynny yn y dyfodol.

### **Polisi a phrosesau caffael cyfredol**

Mae'r bwrdd iechyd, drwy'r gwaith a wneir gan Wasanaethau Caffael

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ein rhan, yn cadw at ddeddfwriaeth caffael sector cyhoeddus y DU, gan gynnwys "Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015", sy'n sicrhau ein bod yn ymdrin â phob darpar gyflenwr a chyflenwr presennol yn broffesiynol, yn deg ac yn foesebol a'n bod yn cynnal egwyddorion caffael cynaliadwy bob amser.

Mae cydymffurfiaeth Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru â'r ddeddfwriaeth hefyd yn sicrhau bod ein prosesau caffael yn nodi ac yn mynd i'r afael â deddfwriaeth rheoli amgylcheddol, iechyd a diogelwch a chydaddoldeb, sy'n galluogi'r bwrdd iechyd i reoli risgiau sy'n ymwneud â diogelu a chaethwasiaeth fodern.

Drwy ein fframwaith caffael a'r broses o fonitro contractau, mae'r bwrdd iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i'n contractwyr a'n cyflenwyr gynnal eu safonau a'r ffordd maen nhw'n trin eu gweithwyr, tra'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ni.

Mae gennym Bolisi Codi Pryderon i'r staff a thudalen benodedig ar SharePoint, ynghyd â Pholisi Parch a Datrys, Gweithdrefn ar gyfer Delio â Cyfathrebu Dienw a Pholisi Pryderon, sy'n rhoi llais i'n staff, cleifion a'r cyhoedd fynegi pryderon yn ymwneud â'r ffordd mae ein contractwyr a'n cyflenwyr yn trin ac yn ymddwyn tuag at eu gweithlu.

## **Rheoli Risgiau a Chydymffurfio â'r Ddeddf**

Mae Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn llunio [Datganiad Cyflogaeth Foesebol](#) blynyddol, sy'n nodi eu hymrwymiad i sicrhau bod yr holl weithgarwch caffael, a gynhelir ar ran GIG Cymru (sy'n cynnwys y bwrdd iechyd), yn foesebol. Mae datganiad y Gwasanaethau Caffael yn cadarnhau mai nod eu prosesau yw sicrhau bod gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi, yr ydym yn cael ein nwyddau a'n gwasanaethau drwyddi, yn cael eu trin yn deg yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae'r ymrwymiad hwn yn sicrhau'n benodol bod unrhyw ran o gadwyn gyflenwi'r bwrdd iechyd yn cydymffurfio â phob elfen o'r Cod Ymarfer, gan gynnwys:-

- Caethwasiaeth fodern a thorri hawliau dynol;
- Cosbrestru;
- Hunangyflogaeth ffug;
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a hunangyflogaeth ffug;
- Talu'r cyflog byw gwirioneddol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cael sicrwydd gan Wasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru eu bod wedi:-

- Ymgorffori'r Cod Ymarfer mewn gweithdrefnau gweithredu safonol, gan gynnwys telerau ac amodau contractau;
- Darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â phrynu / caffael ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesebol, trwy amrywiol gyfryngau hyfforddi;
- Alinio'r Cod Ymarfer yn ein Cod Ymarfer Caffael Cynaliadwy ehangach;
- Datblygu cwestiynau safonol sy'n sicrhau bod arferion cyflogaeth foesebol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael;
- Llofnodi'r gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC), a chyhoeddi Datganiad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar Gyflogaeth Foesebol;
- Gofyn i'n cyflenwyr lofnodi'r gofrestr TISC, a chyhoeddi eu polisiau a'u datganiadau cyflogaeth foesebol eu hunain.

ac yn ogystal, bydd yn:-

- Ymgysylltu'n briodol â'n cyflenwyr yn rheolaidd, er mwyn sicrhau nad yw'r ffordd y maen nhw'n gweithio yn cyfrannu at ddefnyddio arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesebol yn y gadwyn gyflenwi;
- Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am faterion a themâu cyflogaeth foesebol, gan sicrhau cefnogaeth barhaus i bolisi sy'n gysylltiedig â gwaith teg sy'n cael ei lywio gan Lywodraeth Cymru;
- Annog ein cyflenwyr ail haen i ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i sicrhau bod arferion cyflogaeth foesebol yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'u cadwyni cyflenwi, fel amod cyflenwi i GIG Cymru;
- Asesu ein gwariant er mwyn nodi meysydd risg uchel, a pharhau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern, torri hawliau dynol ac arferion cyflogaeth anfoesebol.

### **Cyfrifoldeb cymdeithasol a hawliau dynol**

Wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth Cwm Taf Morgannwg, rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein hymgymeriadau mewn modd cymdeithasol gyfrifol a moesebol. Felly, rydym yn llunio datganiad blynyddol ar gaethwasiaeth fodern i ddangos ein bod yn cymryd ein cyfrifoldebau tuag at ein gweithlu a chyflogeion a gweithwyr contractwyr a chyflenwyr trydydd parti o ddifrif ac na fyddwn yn goddef unrhyw weithredoedd nac ymddygiadau sy'n torri eu hawliau dynol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw weithgarwch gan y

bwrdd iechyd yn achosi neu'n cyfrannu at ffurfiau modern o gaethwasiaeth, drwy sicrhau bod ein Polisiâu a'n Gweithdrefnau Pobl a Chaffael yn gadarn, gyda chamau gweithredu ac amodau sy'n ei hatal rhag digwydd, o fewn ein gweithlu, ein cadwyn gyflenwi neu rywle arall. Er enghraifft:

- Mae gennym brosesau recriwtio a dethol cadarn, sy'n gofyn am wiriadau cyn cyflogi wrth benodi cyflogeion newydd neu weithwyr banc. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gwybod pwy rydym yn eu cyflogi;
- Mae gennym broses gaffael gadarn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr a chyflenwyr trydydd parti ymgymryd â gwiriadau perthnasol ar eu cyflogeion a'u gweithwyr. Mae hyn yn sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cael sicrwydd bod y cyflogeion a'r gweithwyr hyn yn cael eu trin yn deg yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi;
- Mae gennym y polisiâu a'r gweithdrefnau Pobl agored a thryloyw canlynol ar waith; Polisi Cyfathrebu Dienw, Polisi Codi Pryder a Pholisi Parch a Datrys, y mae pob un ohonyn nhw'n sicrhau bod gan ein cyflogeion a'n gweithwyr lais a'u bod yn gallu codi pryderon o'r fath yn y ffordd sydd fwyaf cyfforddus iddynt;
- Mae gennym Bolisi Pryderon, sy'n sicrhau bod gan ein cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r teulu ac ati lais a'u bod yn gallu codi pryderon o'r fath gyda'r bwrdd iechyd;
- Rydym yn codi ymwybyddiaeth ac yn darparu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern i amddiffyn ein cyflogeion, ein gweithwyr, contractwyr a chyflenwyr trydydd parti, ein cleifion a'n defnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â'n henw da.

## **Hyfforddiant**

Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ein holl gyflogeion a gweithwyr yn deall sut mae caethwasiaeth fodern yn amlygu ei hun a sut i roi gwybod amdani pan fydd yn digwydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn lleoliad gofal iechyd, gan fod ein cyflogeion, gweithwyr, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau teulu, contractwyr a chyflenwyr yn rhyngweithio ag ystod amrywiol o bobl yn ddyddiol, sy'n cynyddu'r potensial i ganfod caethwasiaeth fodern bosibl.

Mae ein hyfforddiant statudol a gorfodol yn darparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth cyflogeion a gweithwyr o gaethwasiaeth fodern. Mae'n ofynnol i bob cyflogai a gweithiwr gwblhau'r modiwlau canlynol yn rheolaidd: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol, Iechyd, Diogelwch a Lles, Diogelu Plant a Diogelu Oedolion.

Mae'n ofynnol i gyflogeion Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy'n ymwneud â chaffael a phrynu nwyddau a gwasanaethau ar ran y bwrdd iechyd ymgymryd â hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesebol.

## **Y camau nesaf**

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i wella'n barhaus yn y maes hwn a bydd yn adolygu ac yn monitro a, lle bo angen, yn gwella ein safonau, polisiau, gweithdrefnau a phrosesau, yn ogystal â gwella'r gwaith o godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chyfathrebu mewn perthynas â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

## **Datganiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Gwneir y datganiad hwn i gydymffurfio ag Adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cymeradwyo'r datganiad ac mae wedi cael ei lofnodi ar ei ran gan Paul Mears, y Prif Swyddog Gweithredol.



Dyddiad: 14 Ebrill 2023

**Paul Mears**  
**Prif Swyddog Gweithredol**